# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 3

ASESIADAU AR DDEFNYDDWYR BLAENOROL
O WASANAETHAU IECHYD MEDDWL EILAIDD

*Hawliau asesu*

### 23 Asesiadau: y cyfnod rhyddhau perthnasol

(1) Mae'r cyfnod rhyddhau perthnasol mewn perthynas ag oedolyn–

(a) yn dechrau ar y dyddiad pan gafodd yr oedolyn ei ryddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd (o fewn ystyr adran 22(2)); a

(b) yn gorffen pan fo'r cyfnod o amser a bennir mewn rheoliadau a wneir at ddibenion yr adran hon gan Weinidogion Cymru wedi dod i ben.

(2) Mae'r cyfnod rhyddhau perthnasol hefyd yn dod i ben, cyn i'r cyfnod o amser y cyfeirir ati yn is-adran (1)(b) ddod i ben, os bydd achlysur a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn digwydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 23 mewn grym ar 15.2.2011 at ddibenion penodedig, gweler **a. 55(1)(2)**(b)

**I2** A. 23 mewn grym ar 6.6.2012 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2012/1397, **ergl. 2(l)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 23.